# METHODOLOGY FOR AN EGGCASE HUNT SURVEY

The Great Eggcase Hunt is the Shark Trust's flagship citizen science project, encouraging members of the public to report eggcases that they find washed ashore. North Wales Wildlife Trust and the Shark Trust work with volunteers in Wales to gather eggcase information as part of Project SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities). All eggcase entries are accepted, whether gathered on an ad-hoc basis or from a more structured survey. You can still submit eggcase finds even if you do not know the species ID. To run a structured eggcase hunt please follow the following methodology:

## 1 Prepare your survey

Before starting, record the time and coordinates (or grid reference) of your start point.

You can do this by dropping a pin at your location on Google Maps, or by using apps such as What3Words or Strava. Or you can list the coordinates from an OS map or note down key landmarks you will be able to find on the map later.

## 2 Hunt for eggcases

Start on one strandline (upper or lower depending on the tides*) and slowly walk for a set distance along the strandline.

We recommend you start with approx 250m, which is roughly 300 steps. Either pace this out beforehand and mark your start, turn and end points, or use an app to alert you when you have gone far enough.

Collect every eggcase you find, within one metre either side of the strandline, putting them in a bag or container.

## 3 Turn around

After you have walked your set distance, stop and record your location.

## 4 Walk back to the start point

Move to the other strandline and walk back the way you came until you are level with where you started - again collecting all eggcases within one metre either side of the strandline.

On completing your eggcase hunt, record the finish time and end location.

## 5 Photograph your finds

Group the eggcases by either species or visual similarities, laying them out neatly to be photographed. Be careful if it is a windy day!

Please include something for scale, like a ruler or a coin. You can submit all the eggcases in one photograph, but if there are any you are uncertain of, take specific images of these, so that a member of the team can check the ID!

## 6 Record your finds

Upload the eggcase counts and photographs to the Great Eggcase Hunt using the online recording form, or the Shark Trust mobile app.

Make sure to comment in the notes the duration of the survey, and your start, turn and end points. Lastly, make sure to put 'Project SIARC' in the organisation field!

## TOP TIPS!

**Mark your start, turn and end points before you start.** Pace out your survey area first and mark the key locations. You could use landmarks on the beach, or, if the beach is quiet, you could use flags/bags or something similar.

If you have a smart phone or another GPS enabled device, you can use apps such as Google Maps, Strava or What3Words to mark these locations. Technology helps make surveys comparable as you can start and stop in the same place each time!


**Not every beach has two strandlines.** If there is only one strandline, walk for twice the distance in one direction, marking the start and end of your survey.

**Keep an eye on tide times!** If the tide is coming in, start on the lower strandline and finish with the upper. If the tide is going out, start on the upper strandline and finish with the lower. Ideally, work on a falling tide.

**Scale your survey to suit you.** Eggcase hunts can easily be adapted to be longer or shorter by simply changing the distance between the start and turn points. The key is to be consistent (i.e. walking the same distance on both strandlines if running a double-strandline survey), and that the location and duration are recorded.

**What to do with eggcases.** Empty eggcases are not known to have a secondary purpose. They don't break down to become part of the strandline and they don't offer secondary habitats to other species. If you are certain that the eggcases are empty, it is fine to remove them from the beach. This will prevent double counting by another eggcase enthusiast, or you can just leave them on the beach if you prefer.

*see TOP TIPS! **Not every beach has two strandlines**




Project SIARC is a collaborative project led by ZSL (Zoological Society of London) and Natural Resources Wales (NRW), with the support of Welsh Government's Nature Network Fund and the National Lottery Heritage Fund.

# DULL AROLWG HELFA CASYS WYAU

Yr Great Eggcase Hunt yw prif brosiect gwyddoniaeth dinasyddion y Shark Trust. Mae'n annog aelodau o'r cyhoedd i roi gwybod am unrhyw gasys wyau y dônt o hyd iddynt wedi'u golchi i'r lan. Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac y Shark Trust yn gweithio gyda gwirfoddolwyr yng Nghymru i gasglu gwybodaeth am gasys wyau fel rhan o Brosiect SIARC (sy'n ysbrydoli gweithredu ac ymchwil ar siarcod gyda chymunedau). Derbynnir pob cofnod o gasys wyau, yn cynnwys rhai wedi'u casglu yn ad-hoc neu o arolwg mwy strwythuredig. Gallwch gyflwyno cofnodion o'r casys wyau a welwch hyd yn oed os nad ydych chi'n gwybod beth yw'r rhywogaeth. I gynnal helfa casys wyau strwythuredig, dilynwch y dull canlynol:

## 1 Paratowch eich arolwg

Cyn dechrau, cofnodwch amser a chyfesurynnau (neu gyfeirnod grid) eich man cychwyn.

Gallwch wneud hyn trwy roi pin yn eich lleoliad ar Google Maps, neu drwy ddefnyddio apiau fel What3Words neu Strava. Neu gallwch restru'r cyfesurynnau o fap OS neu wneud nodyn o dirnodau amlwg y byddwch yn gallu dod o hyd iddynt ar y map yn nes ymlaen.

## 2 Ewch i chwilio am gasys wyau

Dechreuwch ar un draethlin (yr uchaf neu'r isaf, yn dibynnu ar y llanw*) a cherdded yn araf am bellter penodol ar hyd y draethlin.

Rydym yn argymell i chi ddechrau gyda thua 250m, sy'n tua 300 o gamau. Gallwch naill ai fesur hyn ymlaen llaw a nodi ble byddwch yn dechrau, yn troi ac yn gorffen, neu gallwch ddefnyddio ap i'ch hysbysu pan fyddwch wedi mynd yn ddigon pell.

Casglwch yr holl gasys wyau y dewch o hyd iddynt, o fewn un metr o boptu'r draethlin, gan eu rhoi mewn bag neu gynhwysydd.

## 3 Trowch yn ôl

Ar ôl cerdded y pellter a nodoch, stopiwch a chofnodi'ch lleoliad.

*gweler y CYNGHORION GORAU! **Nid oes dwy draethlin ar bob traeth**

## 4 Cerddwch yn ôl i'r man cychwyn

Ewch i'r draethlin arall a cherdded yn ôl y ffordd y daethoch nes byddwch gyferbyn â ble dechreuoch chi - eto gan gasglu'r holl gasys wyau o fewn un metr o boptu'r draethlin.

Ar ôl cwblhau eich helfa casys wyau, cofnodwch yr amser gorffen a'r lleoliad.

## 5 Tynnwch lun o'ch casys wyau

Rhowch y casys wyau mewn grwpiau, naill ai yn ôl rhywogaeth neu nodweddion gweledol, gan eu gosod allan yn daclus i dynnu eu llun. Byddwch yn ofalus os yw'n ddiwrnod gwyntog!

Cofiwch gynnwys rhywbeth i roi syniad o'u maint, fel pren mesur neu ddarn o arian. Gallwch gyflwyno'r holl gasys wyau mewn un llun, ond os oes unrhyw rai rydych yn ansicr amdanynt, tynnwch luniau penodol o'r rhain, fel y gall aelod o'r tîm wirio'r rhywogaeth!

## 6 Cofnodwch eich canfyddiadau

Llwythwch eich cyfrifon casys wyau ynghyd â'r ffotograffau i fyny i'r Great Eggcase Hunt gan ddefnyddio'r ffurflen gofnodi ar-lein, neu ap ffôn symudol y Shark Trust.

Cofiwch nodi hyd yr arolwg yn y nodiadau, ynghyd â ble gwnaethoch chi gychwyn, troi a gorffen. Yn olaf, cofiwch roi 'Prosiect SIARC' yn y maes sy'n gofyn am y sefydliad!

## CYNGHORION GORAU!

**Nodwch y mannau cychwyn, troi a gorffen cyn i chi ddechrau.** Mesurwch ardal eich arolwg yn gyntaf a nodwch y prif leoliadau. Gallech ddefnyddio tirnodau ar y traeth, neu, os yw'r traeth yn dawel, gallech ddefnyddio baneri/bagiau neu rywbeth tebyg.

Os oes gennych ffôn clyfar neu ddyfais arall sydd â GPS, gallwch ddefnyddio apiau fel Google Maps, Strava neu What3Words i nodi'r lleoliadau hyn. Mae technoleg yn helpu i wneud arolygon yn gymaradwy oherwydd gallwch gychwyn a gorffen yn yr un lle bob tro!

**Nid oes dwy draethlin ar bob traeth.** Os mai dim ond un draethlin sydd, cerddwch ddwywaith y pellter i un cyfeiriad, gan nodi dechrau a diwedd eich arolwg.

**Cadwch olwg ar amseroedd y llanw!** Os yw'r llanw'n dod i mewn, dechreuwch ar y draethlin isaf a gorffen gyda'r uchaf. Os yw'r llanw'n mynd allan, dechreuwch ar y draethlin uchaf a gorffen gyda'r isaf. Yn ddelfrydol, dylech weithio pan fydd y llanw'n mynd allan.

**Addaswch hyd eich arolwg i'ch siwtio chi.** Mae'n hawdd addasu helfeydd casys wyau i fod yn hirach neu'n fyrrach trwy newid y pellter rhwng y mannau cychwyn a throi. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yn gyson (h.y. cerdded yr un pellter ar y ddwy draethlin, os ydych yn gwneud arolwg dwy draethlin), a'ch bod yn cofnodi'r lleoliad a'r hyd.

**Beth i'w wneud gyda'r casys wyau.** Nid ydym yn ymwybodol bod gan gasys wyau gwag ddiben arall. Dydyn nhw ddim yn torri lawr i fod yn rhan o'r draethlin a dydyn nhw ddim yn cynnig cynefinoedd i rywogaethau eraill. Os ydych chi'n sicr bod y casys wyau yn wag, mae'n iawn mynd â nhw o'r traeth. Bydd hyn yn atal rhywun arall sy'n gwneud yr arolwg rhag eu cyfrif eto. Neu os yw'n well gennych chi, gallwch eu gadael ar y traeth.




www.projectsiarc.com

Cofnodwch eich casys wyau yn www.eggcase.org

Prosiect ar y cyd yw Prosiect SIARC dan arweinyddiaeth ZSL (Cymdeithas Swolegol Llundain) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth Cronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.